# Polisi Clwb Brecwast Ysgol Gymraeg Brynsierfel

**Nod**:

- I ddarparu brecwast iachus ar gyfer y disgyblion ar ddechrau'r diwrnod ysgol o fewn awrygylch hapus, tawel a phleserus.
- I ddarparu amgylchedd groesawgar a diogel ar gyfer disgyblion ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

**Trefniadaeth:**

- Agorir y Clwb Brecwast o **8:00y.b. tan 8:30 y.b.**
- Mae'r Clwb ar gael i ddisgyblion o'r Meithrin (rhan-amser a llawn-amser) hyd at Flwyddyn 6.
- Cedwir manylion pob disgybl, megis gwybodaeth am gyflyrau meddygol, rhifau cyswllt ar gyfer rhieni a rhifau cyswllt ychwanegol petai argyfwng gyda Rheolwraig y Clwb Brecwast.
- Mae Goruchwylwraig Clwb Brecwast yn cofrestru disgyblion wrth iddynt gyrraedd yr ysgol a chedwir y gofrestr gan Reolwr y Clwb Brecwast.
- Am resymau gwarchod plant, **ni** chaniateir i ddisgyblion aros yn y maes parcio wrth eu hunain cyn 8:00yb ac **mae'n rhaid** i rieni/warchodwyr dsigyblion y Cyfnod Sylfaen ddod i ddrws y Clwb Brecwast i gofrestru eu plant am y Clwb.
- Gofynnir i rieni a disgyblion gael mynediad i diroedd yr ysgol trwy'r giât wrth ochr yr adeilad ac i aros ar y trywydd **pob amser**. **Ni chaniateir** i rieni na ddisgyblion gerdded ar draws maes parcio'r staff am resymau iechyd a diogelwch.

**Staffio**

Mae'r staffio yn dilyn y gymhareb o 1:20 ar gyfer disgyblion o dan 5 mlwydd oed ac 1:35 ar gyfer disgyblion dros 5 mlwydd oed. Mae'r staff ar y safle o 7:30yb ymlaen i baratoi ar gyfer agor am 8:00yb. Os bydd aelod o staff yn absennol, byddant yn cysylltu gyda Rheolwraig y Clwb Brecwast er mwyn iddi gael trefnu cyflogi aelod arall o staff i weithio.

**Gwarchod Plant/Iechyd a Diogelwch:**

- Yn unol â threfniadau Gwarchod Plant, mae gan bob aelod o staff sy'n rhan o gynnal y Clwb Brecwast DBS gyflawn ac maen nhw wedi derbyn hyfforddiant Gwarchod Plant. Cedwir cofnod o'r gwiriadau hyn a dyddiadau'r hyfforddiant.
- Mae staff y Clwb Brecwast yn dilyn polisïau presennol yr ysgol ynglŷn â threfniadau ar gyfer gwarchod plant, iechyd a diogelwch a chôd o ymddygiad.

**Arlwyo:**

- Mae gan bob aelod o staff y Clwb Brecwast Dystysgrif Glendid Bwyd.

**Damweiniau/Digwyddiadau:**

Mae staff y Clwb Brecwast yn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau mewn llyfr glas a arwyddir gan y Pennaeth hefyd. Mae staff yn hysbysu'r athrawon perthnasol am unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau. Os bydd plentyn yn cael anaf i'r pen neu unrhyw anaf arall a ystyrir i fod yn ddifrifol, bydd aelod o staff o'r Clwb Brecwast yn cysylltu gyda'r rhiant ar unwaith.

**Trefniadau Tân:**

- Petai tân yn yr ysgol, bydd disgyblion a staff yn dilyn trefniadau arferol yr ysgol, sef gadael yr adeilad mewn dull tawel a threfnus trwy'r allanfa dân agosach.
- Byddant yn ymgynnull ar fuarth yr ysgol.
- Bydd cofrestr y Clwb Brecwast gyda'r staff er mwyn gwirio bod pawb yn bresennol.
- Cynhelir dril tân unwaith pob tymor.

**Cyfathrebu â Rhieni/Warchodwyr:**

- Bydd staff yn cyfathrebu ar lafar gyda rhieni/warchodwyr sy'n dod â'u plant i'r Clwb Brecwast, a gall hyn arwain at drosglwyddo negeseuon i'r athrawon dosbarth.
- Bydd staff y Clwb Brecwast hefyd yn trosglwyddo llythyron wrth rieni/warchodwyr at yr athrawon dosbarth.

**Meddyginiaeth:**

- Os bydd angen pwmp asthma ar ddisgybl, bydd aelod o staff y Clwb Brecwast yn goruchwylio.
- Dylid adnewyddu pob meddyginiaeth arall yn rheolaidd.
- Dylid adnewyddu gwybodaeth am alergedd yn rheolaidd.
  Arddangosir lluniau o ddisgyblion ag alergedd mewn mannau canolog yn yr ysgol gyda chanllawiau ynghylch defnyddio pen-epi.
- Cedwir unrhyw wybodaeth wrth rieni/warchodwyr am alergedd neu am feddyginiaeth ar y ffurflen gofrestru.

**Cau Clwb Brecwast:**

- Yr unig rheswm dros gau'r Clwb Brecwast fyddai oherwydd tywydd gwael, megis eira neu broblemau gyda'r adeilad, ee dim gwres neu gyflenwad dwr.

- Pan fydd tywydd gwael yn golygu cau'r ysgol, adroddir am hyn ar Wefan y Cyngor Sir a thrwy neges destun at rieni/warchodwyr ac ar dudalen trydar yr ysgol.

**Trosglwyddo disgyblion i'w dosbarthiadau:**

- Am 8:40yb, mae staff y Clwb Brecwast yn cerdded disgyblion yn drefnus i'w dosbarthiadau lle mae'r athrawon dosbarth a'r cynorthwywyr yn cwrdd â nhw.
- Mae llyfr gyda staff y Clwb Brecwast i gofnodi trosglwyddo'r disgyblion i'r athrawon dosbarth pob bore.

**Cwynion:**

Bydd unrhyw gwynion yn dilyn Polisi Cwynion yr Ysgol.

**Dyddiad y Polisi**: Chwefror 2024

**Arwyddwyd gan**: Mrs.Denise Bennett (Gadeirydd y Llywodraethwyr)

Arwyddwyd gan: Mrs Z Jermin-Jones (Pennaeth Dros Dro)